



Polisi Cytundeb Defnydd Derbyniol ar gyfer Disgyblion

Rwy'n deall fod rhaid i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol mewn modd cyfrifol, i sicrhau nad oes unrhyw risg neu berygl i fy niogelwch i, neu ddiogelwch y system a defnyddwyr eraill.

Ar gyfer fy niogelwch personol:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o'r system, o ddyfeisiadau ac o gyfathrebu digidol.
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a chyfrinair yn ddiogel – ni fyddaf yn ei rannu, nac yn ceisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair unrhyw berson arall. Deallaf na ddylwn gofnodi na chadw cyfrinair mewn lle mae'n bosibl i rywun yn ei ddwyn.
- Byddaf yn ymwybodol o'r perygl o gyfathrebu gyda dieithriaid ar lein.
- Ni fyddaf yn datgelu gwybodaeth amdanaf fy hun nac eraill tra byddaf ar lein (gall hyn gynnwys enwau, cyfeiriadau, ebyst, rhifau ffôn, oed, rhyw, manylion addysgiadol, manylion ariannol ayyb)
- Os byddaf yn cyfarfod pobl yr wyf wedi cyfathrebu gyda nhw ar lein, byddaf yn gwneud hynny mewn man cyhoeddus gydag oedolyn yn bresennol.
- Byddaf yn adrodd wrth athro/oedolyn am unrhyw ddeunydd anaddas neu annymunol, neu unrhyw beth sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus o'i weld ar lein.

Deallaf fod gan pawb yr un hawl i ddefnyddio technoleg fel adnodd a:

- Deallaf fod system a dyfeisiadau'r ysgol wedi eu bwriadu ar gyfer dibenion addysgiadol ac ni fyddaf yn eu defnyddio ar gyfer dibenion personol heb gael caniatad.
- Ni fyddaf yn ceisio (heb gael caniatad) lawrlwytho neu uwchlwytho deunydd sylweddol mewn maint a allai roi baich ar y system sy'n golygu nad yw defnyddwyr eraill yn gallu cario ymlaen gyda'u gwaith.
- Ni fyddaf yn defnyddio system neu ddyfeisiadau'r ysgol ar gyfer chwarae gemau ar lein, siopa, rhannu ffeiliau neu wyllo clipiau fideo heb gael caniatad gan aelod o staff i wneud hynny.

Byddaf yn gweithredu fel y disgwyliaf i eraill weithredu tuag ataf:

- Byddaf y parchu gwaith ac eiddo eraill ac ni fyddaf yn cael mynediad, copio, dileu neu addasu ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall heb ganiatad y perchnnog.
- Byddaf yn gwrtais a chyfrifol wrth gyfathrebu ar-lein gydag eraill, ni fyddaf yn defnyddio iaith gref, ymosodol nac amhriodol, a pharchaf fod gan eraill farn gwahanol.
- Ni wnaaf gymryd na dosbarthu lluniau o neb heb eu caniatad.

Derbyniaf fod gan yr ysgol gyfrifoldeb i gynnal diogelwch a safon y dechnoleg a gynigir i mi er mwyn sicrhau fod pob dim yn gweithio'n esmwyth i bawb:

- Dim ond ar yr adegau pan fydd gen i ganiatad y byddaf yn defnyddio fy nyfeisiadau personol (ffonau symudol, ayyb). O ddefnyddio fy nyfeisiadau personol, deallaf y bydd rhaid i mi ddilyn y rheolau a nodir yn y cytundeb yn yr un modd ag y byddwn petawn yn defnyddio offer yr ysgol.
- Deallaf y risgiau mewn uwchlwytho, lawrlwytho neu geisio gael mynediad i ddeunyddiau anghyfreithlon neu anaddas, neu ddeunyddiau allai greu niwed neu phoendod i eraill. Ni fyddaf

chwaith yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni a allai ganiatau i mi osgoi'r systemau ffiltro / diogelwch i geisio cael mynediad i ddeunyddiau o'r fath.

- Byddaf yn adrodd am unrhyw ddifrod neu ddiffygion ar offer neu feddalwedd, sut bynnag mae hyn wedi digwydd.
- Ni fyddaf yn agor unrhyw ddolenni mewn e-byst neu atodiad i e-byst, os nad wyf yn adnabod ac yn ymddiried yn y person / sefydliad sydd wedi anfon yr e-bost, neu os oes gennyf unrhyw gonsyrn am ddilysrwydd yr e-bost (oherwydd risg fod yr atodiad yn cynnwys firws neu raglenni a allai beri difrod)
- Ni fyddaf yn ceisio arsefydlu (install) neu gadw rhaglenni o unrhyw fath ar unrhyw ddyfais ysgol, na chwaith ymyrryd gyda gosodiadau'r (settings) cyfrifiadur.
- Dim ond ar adegau pan roddir caniatad i mi y byddaf yn defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

Wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd ar gyfer ymchwil neu ddefnydd arall, derbyniat fod rhaid i mi:

- Gael caniatad i ddefnyddio gwaith gwreiddiol eraill o fewn fy ngwaith fy hun
- Ni fyddaf yn ymgeisio i lawrlwytho copiau o waith sydd â hawlfraint (yn cynnwys cerddoriaeth a fideos)
- Cymryd gofal wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd i ganfod gwybodaeth a gwirio fod y wybodaeth yn gywir a diduedd.

Deallaf fy mod yn gyfrifol am fy ngweithrediadau, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol:

- Deallaf fod gan yr ysgol yr hawl i gymryd camau yn fy erbyn os y byddaf yn ymddwyn yn amhriodol, ac yn groes i'r hyn a amlinellir yn y cytundeb hwn pan fyddaf y tu allan i'r ysgol, pan mae hyn yn cael effaith ar yr ysgol a chymuned yr ysgol (er enghraifft seibr- fwlio, defnyddio gwybodaeth neu ddelweddau personol)
- Deallaf y byddaf yn wynebu camau disgyblu os na fyddaf yn cydymffurfio gyda'r cytundeb Defnydd Derbyniol hwn. Gallai hyn gynnwys rhwystro mynediad i rwydwaith / rhyngwrwd yr ysgol, dalfa, gwaharddiad, cysylltu gyda rhieni, a chysylltu gyda'r heddlu mewn achosion o dor cyfraith.

Gofynnir i chi ddarllen y rhannau ar y dudalen nesaf i ddangos eich bod wedi darllen, deall a chytuno i'r rheolau a nodir yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os nad ydych yn cytuno, ac yn dychwelyd y cytundeb hwn, ni fyddwch yn cael mynediad i system a dyfeisiadau'r ysgol.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:



Dyddiad cymeradwyo: 23/03/2022 (gan y corff llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: 23/03/2026

Gwneud yr isod ar Google Forms - disgyblion yn cwblhau ar-lein.

I sicrhau dealltwriaeth lawn a chysylltu gyda gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, bydd y polisi yn cael ei gyflwyno'n ymarferol i'r dysgwyr er mwyn iddynt ddeall gofynion y polisi a gweld eu bwysigrwydd wrth ddefnyddio technoleg yn yr ysgol a hefyd mewn byd gwaith

Ffurflen Gofnodi Cytundeb Defnydd Derbyniol

Mae'r ffurflen hon yn cyfeirio at y Cytundeb Defnydd Derbyniol sydd wedi ei atodi. Os gwelwch yn dda wnewch chi gwblhau'r rhannau isod i gadarnhau eich bod wedi darllen, deall a chytuno â'r rheolau a nodir yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os nad ydych yn cytuno, ac yn dychwelyd y cytundeb hwn, ni fyddwch yn cael mynediad i system a dyfeisiadau'r ysgol.

Rwyf wedi darllen a deall yr uchod ac yn cytuno i'r canllawiau a'r rheolau pan fyddaf yn defnyddio system a dyfeisiadau'r ysgol (yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol)

- dyfais bersonol yn yr ysgol (o gael caniatâd) e.e. ffonau symudol, gliniaduron ayyb
- dyfais bersonol mewn ffordd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol, e.e. cael mynediad i ystafelloedd dysgu rhith (Google Classroom, Teams),
- ebost ysgol, gwefan ayyb.

Enw'r disgybl:

Dosbarth:

Arwyddwyd:

Dyddiad:

Google Form arall i'w arwyddo ar ôl darllen y Cytundeb

Llofnod Rhiant / Gwarcheidwad

Rwyf wedi darllen y Cytundeb Defnydd Derbyniol a rhof ganiatad i fy mab / merch ddefnyddio system TGCh yr ysgol yn unol â'r cytundeb. Deallaf mai cyfrifoldeb fy mab / merch yw defnyddio'r system TGCh yr ysgol yn gywir a phriodol, ac y bydd yr ysgol yn delio ag unrhyw gamddefnydd yn unol â'r cytundeb hwn, a Pholisi Ymddygiad yr ysgol.

Arwyddwyd: _____ (Rhiant / Gwarcheidwad)

Dyddiad: _____